Nodiadau athrawon

Mae'r uned hon yn ymdrin ag elfennau'r fanyleb sy'n berthnasol i "drafodaethau ynghylch effeithiolrwydd a grym Arlywydd UDA". Cymerir peth gwybodaeth flaenorol am y Cyfansoddiad Americanaidd yn ganiataol yn dilyn astudiaeth gynharach yn yr uned. Ni fwriadir cwmpasu'r holl ddeunydd sy'n angenrheidiol i baratoi myfyrwyr at yr arholiad am y topig. Yn hytrach, fe'i cynlluniwyd fel cyflwyniad a fydd yn arwain athrawon ac yn annog myfyrwyr i ymgymryd â thrafodaethau cyfoes trwy ymchwil ychwanegol a thrafodaethau. Dylai athrawon a myfyrwyr ymgymryd ag ymchwil rhagarweiniol a phellach ar y maes hwn. Bydd hyn yn eu galluogi i ddiweddaru deunydd a gyflwynwyd yma gyda gwybodaeth nad oedd ar gael yn ystod y cyfnod ysgrifennu. Mae trafodaethau cyfredol sy'n ymwneud â grym arlywyddol yn arbennig o berthnasol, yn enwedig yng ngoleuni etholiad Donald Trump fel arlywydd yn 2016 a'r safbwyntiau a ddaw gydag ef i'r Tŷ Gwyn.

Nod ac amcanion y sesiwn:

Nod: dadansoddiad beirniadol o ddatblygiad mewn grym arlywyddol yn dilyn yr Ail Ryfel Byd.

Amcanion:

1. I archwilio'r rhesymau am gynnydd mewn grym arlywyddol yn ystod y cyfnod hwn.
2. I benderfynu i ba raddau y mae'r datblygiad mewn grym arlywyddol wedi bod ar draul llywodraeth gyfansoddiadol.
3. I archwilio'r newidiadau yn y berthynas grym rhwng arlywyddion a'r Gyngres.
4. I asesu'r graddau y gellir dwyn yr arlywydd i gyfrif o ran y defnydd o rym.

Amcanion Llywodraeth a Gwleidyddiaeth CBAC a drafodir

Ymdrinir â'r amcanion dysgu CBAC canlynol:

A01 – Grym arlywyddol a'r swyddfa weithredol cymhwysir y termau allweddol.
A02 – Dod i gasgliad am y rhesymau am y newidiadau mewn grym arlywyddol ers 1945 a sut y mae hyn wedi dylanwadu ar y berthynas wleidyddol rhwng y swyddfa weithredol a'r corff deddfwriaethol.

A03 – Rhoi'r dadleuon, mewn perthynas â'r defnydd a'r camddefnydd posibl o rym arlywyddol yn nhrefn pwysigrwydd ynghyd â'r materion sy'n ymwneud ag atebolrwydd y swyddfa weithredol.

Trefn y sesiwn

Dechreuir y sesiwn gyda chyflwyniad cyffredinol i'r topig. Dylai'r athro/athrawes hysbysu'r myfyrwyr mai cyflwyniad ydy'r sesiwn i un o faterion mwyaf arwyddocaol yng ngwleidyddiaeth America. Dylai'r athro, heb gyfeirio'n echblyg at 'rym arlywyddol', gyflwyno'r sesiwn gyda datganiad a chwestiwn tebyg i hyn: 'Heddiw, rydym yn mynd i sôn am yr hyn a gaiff ei ystyried y drafodaeth fwyaf pwysig mewn gwleidyddiaeth gyfoes yn America, sydd wedi dod yn arbennig o berthnasol i lawer o Americanwyr er mis Tachwedd 2016'. Beth ydy'r drafodaeth?

Cloi

Diweddir y sesiwn gyda'r athrawon yn egluro i'r myfyrwyr bod grym yn mynd a dod rhwng yr arlywydd, Y Gyngres a'r llysoedd. Mae defnydd effeithiol – a chamddefnydd posibl – o rym arlywyddol yn dibynnu ar nifer o ffactorau, gan gynnwys amgylchiadau, bygythiadau canfyddiadol i'r genedl, ynghyd â chymeriad ac anian yr arlywydd.

Ymarfer 1: Yr Adran Weithredol: Termau allweddol a diffiniadau

Arweiniad

Dylid egluro nodau ac amcanion y sesiwn hon i'r myfyrwyr, sef:

1. sicrhau bod y myfyrwyr yn deall ac yn gallu defnyddio terminoleg priodol wrth ddisgrifio a dadansoddi natur a datblygiad grym arlywyddol.
2. cynnig cyd-destun cyfansoddiadol ar gyfer trafodaethau am natur grym arlywyddol.

Gweithgaredd

Cliciwch i agor y gweithgaredd

Gweler taflen waith 1

Mae angen i'r myfyrwyr gysylltu'r termau allweddol â'r diffiniadau.

Term allweddol	Diffiniad
Pwerau rhifiadol	Pwerau a roddir i'r arlywydd yn y cyfansoddiad
Pwerau dealledig	Pwerau sy'n angenrheidiol i'r corff gweithredol wneud ei waith
Cabinet	Uwch-benaethiaid a benodir o adrannau gweithredol
Swyddfa weithredol yr arlywydd	Uwch-gynghorwyr i'r arlywydd
Arlywyddiaeth ymerodrol	Corff gweithredol â phŵer sydd y tu hwnt i'r ffiniau a bennwyd gan y cyfansoddiad
Gweithredu unedol	Grym yr arlywydd i weithredu cyfrifoldebau cyfansoddiadol heb rwystr o gyfeiriad y Gyngres na'r Goruchaf Lys
Uchelgyhuddiad	Cyhuddo'r arlywydd o gamymddwyn o ganlyniad i "droseddau uwch a chamymddygiad"
Gorchmynion gweithredol	Cyfarwyddiadau heb fewnbwn gan ganghennau eraill y llywodraeth
Cytundebau gweithredol	Cytundebau gyda phŵer estron nad ydynt yn rhai ffurfiol
Braint gweithredol	Celu gwybodaeth oddi wrth ganghennau eraill y llywodraeth

Yna, dylai athrawon ddefnyddio cyflwyniad *PowerPoint* byr i gyflwyno trafodaeth ynglŷn â sut oedd y Sylfaenwyr yn gweld yr arlywyddiaeth (gall hyn hefyd fod yn ddefnyddiol o ran atgoffa'r myfyrwyr am gynnwys yr astudiaeth ar y Cyfansoddiad).

Cliciwch i agor y cyflwyniad

Er enghraifft: Y cyd-destun Cyfansoddiadol:

- Erthygl 1 – yn egluro grym deddfwriaethol (Y Gyngres)
- Erthygl 2 – yn egluro grym gweithredol (Yr Arlywydd)
- Erthygl 3 – yn egluro gvrym cyfreithiol (Y Goruchaf Lys)

Cwestiwn trafod:
Sut oedd y Sylfaenwyr yn gweld yr Arlywyddiaeth?

Nodiadau

Atebion posibl i'r cwestiwn trafod

Roedden nhw'n gweld yr Adran Weithredol yn llai pwysig na'r Adran Ddeddfwriaethol. Mae llywodraethau gweriniaethol yn pwysleisio rhoi grym yn nwylo cynrychiolwyr y bobl yn y Gyngres: mae'r Adran Weithredol yn sicrhau bod y cyfreithiau'n cael eu rhoi ar waith yn hytrach na'u llunio.

Roedden nhw'n credu bod grym yr Adran Weithredol yn agored i'w gamweinyddu (George 111). Gellir cyfeirio at y Datganiad o Annibyniaeth sydd, yn dilyn y rhagarweiniad, yn rhestru'r camdrin a fu gan Frenin Prydain o drefedigaethau Americanaidd. Roedd y syniad o 'unbeniaeth gweithredol' wedi treiddio i'r meddwl cyfansoddiadol yn ystod y cyfnod sefydlu – gwelir tystiolaeth o hyn yn y modd y cafwyd lleihad mewn grym gweithredol yng nghyfansoddiadau'r taleithiau cynnar.

Nid oedden nhw eisiau creu arlywyddiaeth a oedd yn rhy bwerus. Yn dilyn y pryder am 'unbeniaeth gweithredol', roedd y cyfansoddiad yn bwriadu osgoi'r camddefnydd o rym trwy wiriadau a chydbwysedd a ffederaliaeth fel ei egwyddorion sylfaenol. Yn y cyd-destun hwn, gwelwyd yr arlywyddiaeth (a gynlluniwyd gyda George Washington mewn golwg), yn fwy fel arweinydd symbolaidd na gwleidydd gweithredol.

Ymarfer 2a – Pwerau wedi'u rhestru a phwerau dealledig

Arweiniad 2a a 2b

Dylai athrawon nodi y caiff yr Arlywyddiaeth Americanaidd ei ystyried fel y 'swydd wleidyddol mwyaf pwerus yn y byd'.

Dylen nhw wedyn, gyflwyno'r ymarfer canlynol, mewn dwy ran, sy'n gofyn i fyfyrwyr adnabod rhesymau posibl am y cynnydd mewn pwerau arlywyddol yn dilyn yr Ail Ryfel Byd, gan dalu sylw i:

- ddefnydd cynyddol yr Arlywydd o bŵer cyfansoddiadol dealledig y swydd
- ddatblygiad Swyddfa Weithredol yr Arlywydd

Diweddir yr ymarfer gyda'r athro/athrawes yn pwysleisio bod defnydd ehangach o bwerau dealledig, ynghyd â sefydlu Swyddfa Weithredol yr Arlywydd yn resymau pwysig sydd wedi cyfrannu at gynnydd mewn pŵer arlywyddol, a bod ffactorau eraill wedi cyfrannu at bŵer posibl yr arlywyddiaeth hefyd. Mae rhain yn cynnwys y newid cyson yn neinamig y berthynas pŵer rhwng yr Arlywydd a'r Gyngres a rôl yr Arlywydd fel pencadfridog.

Gweithgaredd 2a
Cliciwch i agor y gweithgaredd
Gweler taflen waith 2a

Mae angen i'r myfyrwyr osod pwerau Arlywydd gyda'r penawdau cywir.

Pwerau rhifiadol *(Atebion cywir)*

Penodi llysgenhadon a barnwyr y Goruchaf lys
Caniatáu maddeuant
Llunio cytundebau
Atal deddfwriaeth.

Pwerau dealledig *(Atebion cywir)*

Llunio cytundebau gweithredol gyda phwerau tramor
Gwneud datganiadau a gorchmynion gweithredol
Rhoi braint gweithredol ar waith.

Cwestiwn trafod:
Ym mha ffordd mae'r pwerau rhifiadol yn llai effeithiol na'r pwerau dealledig?

Nodiadau 2a

Ym mha ffyrdd y mae pwerau rhifiadol yn llai effeithiol na phwerau dealledig?

- Caiff pwerau rhifiadol eu diffinio'n gyfansoddiadol.
- Mae pwerau apwyntio a llunio cytundebau'n ddibynnol ar sêl bendith y Senedd.
- Y Gyngres gaiff y gair olaf o ran pwerau atal.
- Mae pwerau dealledig yn agored i ddehongliad eang ac felly'n rhoi mwy o raff i'r Arlywydd wrth eu rhoi ar waith.
- Mae'n bosibl i gytundebau gweithredol, gorchmynion a braint fynd y tu hwnt i wahanu pwerau/atebolrwydd i ganghennau eraill y llywodraeth.

Ymarfer 2b – Cabinet a swyddfa weithredol yr Arlywydd (EOP)

Gweithgaredd 2b – Gwir ac Anwir
Cliciwch i agor y gweithgaredd
Gweler taflen waith 2b

Mae angen i'r myfyrwyr ystyried y datganiadau canlynol am Gabinet a Swyddfa Weithredol yr Arlywydd (EOP) a phenderfynu os ydynt yn wir neu'n anwir. Yna mae angen iddynt gynnig rhesymau i egluro pam eu bod yn credu fod pob datganiad yn wir neu'n anwir.

Dylai'r athro a'r dosbarth wedyn ystyried a thrafod yr atebion.

Datganiadau:

- Yn ôl y Cyfansoddiad, mae'n ofynnol ar yr Arlywydd i benodi Cabinet.
- Mae penodi Cabinet gan yr Arlywydd yn ddibynnol ar sêl bendith y Senedd.
- Gall mwyafrif y Cabinet ymwrthod â phenderfyniadau'r Arlywydd.
- Aelodau plaid yr Arlywydd ydy'r Cabinet.
- Cynhelir cyfarfodydd y Cabinet yn wythnosol pan fydd yr Arlywydd yn y Tŷ Gwyn.
- Gall yr Arlywydd ychwanegu at neu ddiddymu unedau o'r EOP.
- Nid oes gofyn ar staff yr EOP i gynnig tystiolaeth gerbron pwyllgorau'r Gyngres.
- Nid yw apwyntiadau arlywyddol i'r EOP yn ddibynnol ar sêl bendith y Senedd.
- Gall Pennaeth Staff y Tŷ Gwyn fynychu cyfarfodydd y Cabinet.
- Caiff polisïau eu ffurfio gan yr EOP yn hytrach nag adrannau gweithredol y Cabinet.

Nodiadau 2b

Atebion a awgrymir a phwyntiau i gynorthwyo trafodaeth mewn perthynas â'r gweithgaredd gwir ac anwir.

- Yn ôl y Cyfansoddiad, mae'n ofynnol ar yr Arlywydd i benodi Cabinet.
  Anwir: Noda'r Cyfansoddiad y gall yr Arlywydd ofyn am gyngor ysgrifenedig gan benaethiaid adrannau gweithredol. Nid yw'r cyfansoddiad yn mynnu y dylai penaethiaid yr adrannau hynny gyfarfod â'r Arlywydd ac nid yw'n diffinio sawl adran y dylai fodoli, nac, ychwaith eu gorchwylion a'u rolau.
- Mae penodiad y Cabinet gan yr Arlywydd yn ddibynnol ar sêl bendith y Senedd.
  Gwir: Rhaid i fwyafrif yn y Senedd gadarnhau enwebai'r Arlywydd. Mewn achosion prin, mae'r Senedd wedi gwrthod enwebiad, er, weithiau, caiff enwebiadau eu tynnu'n ôl os ydyn nhw'n wynebu gwrthwynebiad yn y Senedd.
- Gall mwyafrif y Cabinet ymwrthod â phenderfyniadau'r Arlywydd.
  Anwir: Corff ymgynghorol ydy'r Cabinet sydd heb bwerau i wneud penderfyniadau. Mae gan yr Arlywydd awdurdod llwyr dros y Cabinet gyda'r aelodau yn ei wasanaethu yn unol â'i ddymuniad.
- Cynhelir cyfarfodydd y Cabinet yn wythnosol pan mae'r Arlywydd yn y Tŷ Gwyn.
  Anwir: Cynhelir cyfarfodydd y Cabinet pan mae'r Arlywydd yn penderfynu'u galw. Y

dyddiau hyn, y mae'n fwy tebygol i'r Arlywydd gyfarfod ag aelodau'r Cabinet ar lefel unigol yn hytrach na thorfol.

- Aelodau plaid yr Arlywydd ydy'r Cabinet.
  Anwir: Mae gan yr Arlywydd rwydd hynt i benodi aelodau i'r Cabinet o blaid arall neu o du allan i'r byd gwleidyddol.
- Gall yr Arlywydd ychwanegu at neu ddiddymu unedau o'r EOP.
  Gwir: Mae nifer unedau yr EOP yn amrywio o un weinyddiaeth i'r llall, er bod yr unedau mwyaf blaenllaw, e.e. Swyddfa'r Tŷ Gwyn, Y Cyngor Diogelwch Cenedlaethol, Cyngor y Cynghorwyr Economaidd, yn cael eu hystyried yn rhai parhaol.
- Nid oes gofyn ar staff yr EOP i gyflwyno tystiolaeth gerbron pwyllgorau'r Gyngres.
  Gwir: Er y gall staff yr EOP ymddangos gerbron pwyllgorau'r Gyngres, gellir rhoi breintiau gweithredol ar waith er mwyn osgoi hyn.
- Nid yw apwyntiadau arlywyddol i'r EOP yn ddibynnol ar sêl bendith y Senedd.
  Anwir: Mae rhai apwyntiadau yn ddibynnol ar sêl bendith y Senedd, e.e. Cadeiryddiaeth Cyngor y Cynghorwyr Economaidd, Cyfarwyddwr Rheolaeth y Swyddfa a'r Gyllideb ac uwch-aelodau Swyddfa Cynrychiolydd Masnach UDA.
- Gall Pennaeth Staff y Tŷ Gwyn fynychu cyfarfodydd y Cabinet.
  Gwir: Fel arfer, mae Pennaeth Staff y Tŷ Gwyn ar yr un lefel ag aelodau'r Cabinet ac felly â rhwydd hynt i fynychu cyfarfodydd (mae'n bosibl rhoi'r un statws i uwch-swyddogion eraill, yn cynnwys y llysgennad i'r Cenhedloedd Unedig).
- Caiff polisïau eu ffurfio gan yr EOP yn hytrach na chan adrannau gweithredol y Cabinet.
  Gwir: Y dyddiau hyn, mae'r EOP yn llunio polisïau cartref a thramor, e.e. mae'r polisi Diogelwch Cenedlaethol wedi symud o'r Adran Daleithiol ac Amddiffyn i'r Cyngor Diogelwch Cenedlaethol. Mae polisi masnach wedi symud o'r Adrannau Taleithiol, Masnach ac Amaethyddiaeth i Swyddfa Masnach UDA (hefyd darperir cyngor cyfreithiol gan gyfreithwyr y Tŷ Gwyn yn hytrach na chan yr Adran Gyfiawnder).

Ymarfer 3 – Ffactorau a all gynyddu grym arlywyddol mewn perthynas â'r Gyngres

Arweiniad

Dylai myfyrwyr ymgymryd â'r ymarfer hwn mewn grwpiau bychain a chytuno ar eu hatebion.

Yr unig beth sy'n bwysig ydy bod 'arweinyddiaeth mewn cyfnodau o fygythiad' yn cael ei osod ar frig y diemwnt. Gellir gosod y ffactorau eraill mewn unrhyw drefn gan ddibynnu ar y dadleuon a gynigir gan y myfyrwyr i gefnogi eu dadleuon.

Dylai athrawon derfynu'r ymarfer hwn gan adnabod comiwnyddiaeth ryngwladol a therfysgaeth ryngwladol fel dau o'r prif fygythiadau sydd wedi dylanwadu ar fywyd gwleidyddol UDA ers y cyfnod yn dilyn yr Ail Ryfel Byd

Gweithgaredd

Cliciwch i agor y gweithgaredd

Gweler taflen waith 3

Mae'r ffactorau isod yn arwain at gynnydd mewn pwerau'r Arlywydd mewn perthynas â phwerau'r Gyngres. Dylai'r myfyrwyr osod y ffactorau ar y diemwnt mewn trefn gan gychwyn gyda'r mwyaf pwysig ar y brig.

Datganiadau:

Arweinydd y wlad mwyaf pwerus yn y byd, yn economaidd ac yn filitaraidd, yw'r arlywydd.

Yr arlywydd ydy'r unig ddeiliad swydd a etholwyd yn genedlaethol.

Trwy'r anerchiad agoriadol a'r areithiau ar gyflwr y wlad (state of the union), y mae'r arlywydd yn gosod cyfeiriad polisi tramor a chartref y wlad.

Arlywyddiaeth UDA – Grym Arlywyddol

Yr arlywydd ydy pencadfridog y lluoedd arfog ac mae hefyd yn rheoli stordy arfau niwclear y genedl.

Disgwylia'r genedl arweiniad gan ei harlywydd ar adegau pan deimla dan fygythiad.

Mae gwiriadau'r Gyngres ar yr arlywydd yn llai effeithiol pan reolir yr adran weithredol a'r corff deddfwriaethol gan yr un blaid.

Fel pennaeth y wlad, mae'r arlywydd yn ei chanol hi o safbwynt sylw'r wasg a gwasanaethau newyddion.

Ar gyfartaledd, yn hanesyddol, mae hyder y cyhoedd yn y Gyngres yn is na'i hyder yn yr arlywyddiaeth.

Y Gyngres yn hytrach na'r arlywydd sydd i'w gweld yn gyfrifol ar adeg o gaethiwed (gridlock) llywodraethol.

Ymarfer 4 – Yr Arlywydd fel pencadfridog ac ymyrraethau milwrol sylweddol

Arweiniad

Ar ddechrau'r ymarfer hwn, dylai'r athro/athrawes nodi bod Arlywyddion, er yr Ail Ryfel Byd, wedi arwain lluoedd Americanaidd mewn rhyfeloedd tramor heb ofyn am ddatganiadau o ryfel gan y Gyngres:

- yn ystod y Rhyfel Oer (1945-1991) wrth ymateb i fygythiad a welwyd o du comiwnyddiaeth ryngwladol (Yr Undeb Sofietaidd a China).
- yn dilyn ymosodiadau 9/11 wrth ymateb i fygythiad a welwyd o du terfysgaeth ryngwladol (o 2001 ymlaen).

Mae'r ymarfer hwn yn gofyn i fyfyrwyr gysylltu'n gywir pwy oedd yr Arlywydd yn ystod y cyfnod pan oedd lluoedd UDA yn gwrthdaro â phŵer tramor a hefyd i adnabod os oedd y fenter yn un llwyddiannus ai peidio.

Ar ddiwedd yr ymarfer, dylai'r athro/athrawes nodi bod y Gyngres wedi datgan rhyfel pob tro yr oedd UDA wedi bod yn llwyddiannus yn y rhyfeloedd hyn.

Cwestiwn trafod
Ers 1945, mae arlywyddion wedi arwain UDA mewn cyfres o ryfeloedd. Pam, ac eithrio ymyrraeth George H.W. Bush yn Irac, y mae rhain wedi bod yn aflwyddiannus?

Gweithgaredd

Gweler taflen waith 4

Mae angen i'r myfyrwyr nodi pa arlywydd a oedd wrth y llyw yn ystod y cyfnodau pan oedd lluoedd arfog UDA mewn sefyllfa o wrthdaro sylweddol gyda gwlad/gwledydd arall/eraill a cheisio nodi os oedd y gwrthdaro'n llwyddiannus neu'n aflwyddiannus.

(Atebion cywir)

Arlywydd	Gwlad dramor	Llwyddiannus	Aflwyddiannus
Madison	Lloegr	X	
Polk	Mecsico	X	
McKinley	Sbaen	X	
Wilson	Yr Almaen	X	
F.D.Roosevelt	Siapan/Yr Almaen	X	
Truman	Gogledd Corea		x
Johnson	Gogledd Fietnam		x
Nixon	Fietnam		x
G.H.W. Bush	Irac	x	
G.W.Bush	Afghanistan/Irac		x

Cwestiwn trafod

Er 1945, mae arlywyddion wedi arwain UDA mewn cyfres o ryfeloedd. Pam, ar wahân i ymyrraeth George H.W. Bush yn Irac, oedd y rhain yn aflwyddiannus?

Nodiadau

Atebion y mae modd eu trafod:

- Mae rhyfeloedd wedi bod yn hir ac, yn y pen draw, eu gweld yn ben-agored (roedd ymyrraeth George H.W. Bush yn Irac drosodd yn gyflym).
- Mae colledion Americanaidd wedi cynyddu yn eu nifer (ychydig o golledion a gafwyd yn ystod ymyrraeth George H.W. Bush yn Irac).
- Mae cefnogaeth y cyhoedd i'r gwrthdaro wedi lleihau (roedd ymyrraeth George H.W. Bush yn Irac yn boblogaidd ymysg y cyhoedd).
- Mae'r Gyngres wedi rhoi sêl bendith ar y dechrau ond wedi ailfeddwl o ran 'rhyfeloedd arlywyddol' er mwyn adlewyrchu barn y cyhoedd (nid oedd gwrthwynebiad eang yn y Gyngres i ymyrraeth George H.W. Bush yn Irac).

Ymarfer 5 – Grym Arlywyddol v Grym Cyngresol 1945-2016

Arweiniad

Mae'r ymarfer hwn yn cysylltu'r wybodaeth a gasglwyd yn ymarfer 4 gyda newidiadau yn y berthynas grym rhwng arlywyddion a'r gyngres yn y cyfnod wedi'r ail ryfel byd.

Gofynnir i fyfyrwyr gwblhau'r graff byw isod.

Terfynir yr ymarfer hwn gyda chwestiwn trafod.

Gweithgaredd

Gweler taflen waith 5

Mae angen i'r myfyrwyr enwi'r arlywyddion sydd ar goll ar draws echelin "x" y graff byw. Yna rhaid nodi yn gywir y "rhyfeloedd arlywyddol" yn ogystal â'r pedwar digwyddiad allweddol: Watergate, Irangate, uchelgyhuddiad a 9/11 yn y blychau gwag priodol a osodir ar draws y graff.

(Atebion cywir)

Grym Arlywyddol v Grym Cyngresol



Arlywyddion 1945 – 2017

Cwestiwn trafod

Pam, ers Rhyfel Fietnam, yn dilyn 'rhyfeloedd arlywyddol' y mae dirywiad mewn pŵer arlywyddol mewn perthynas â phŵer cyngresol a beth ydy'r canlyniadau?

Nodiadau

Pwyntiau trafod posibl ac atebion i'r cwestiwn trafod:

- Ymateb yn erbyn 'Arlywyddiaeth Imperialaidd' Johnson a Nixon yn dilyn Fietnam (a Watergate).
- Y Gyngres yn ailafael yn ei rôl o ddwyn yr Adran Weithredol i gyfrif yn dilyn Irangate.
- Rheolaeth Weriniaethol o Dŷ'r Cynrychiolwyr a gwrthwynebiad i Clinton (Democrat) yn arwain at uchelgyhuddo aflwyddiannus.
- Ymateb i 'Arlywyddiaeth Unedol' George W Bush a gweithredoedd ei lywodraeth yn ystod y 'rhyfel yn erbyn terfysgaeth'.
- Rheolaeth Weriniaethol o'r Gyngres a gwrthwynebiad i Obama yn arwain at dagfa ddeddfwriaethol.

Ymarfer 6 – Adran Weithredol sy'n mynd yn rhy bell: Watergate ac Irangate

Arweiniad

Mae'r ymarfer hwn yn ystyried dwy enghraifft o weithredoedd arlywyddol a oedd yn gyfansoddiadol amhriodol. Dylai'r myfyrwyr ymchwilio i sgandalau Watergate ac Irangate ac yna cymharu'r gwahanol ffyrdd y cafodd y digwyddiadau hyn effaith ar arlywyddiaethau Richard Nixon a Ronald Reagan. Dylid annog y myfyrwyr i ystyried os ydy uchelgyhuddo (neu fygythiad ohono) yn ffrwyn effeithiol ar rym arlywyddol.

Terfynir yr ymarfer hwn gyda chwestiwn trafod.

Gweithgaredd

Cliciwch i agor y gweithgaredd

Gweler taflen waith 6

Mae angen i fyfyrwyr gysylltu'r datganiadau sy'n nodweddu;
i) Watergate ii) Irangate iii) Y ddau ohonynt iv) Yr un ohonynt.

Watergate	Irangate	Y ddau	Yr un ohonynt
Yr Arlywydd yn rhan o'r broses o gelu gwybodaeth	Yr Arlywydd yn goresgyn y scandal	Cynorthwywyr yn torri'r gyfraith	Uchelgyhuddo'r Arlywydd
Yr Arlywydd yn ymddiswyddo	Yr Arlywydd yn gadael ei swydd gyda graddfeydd uchel o gymeradwyaeth	Y wasg yn datgelu bod gweithrediadau anghyfreithlon wedi eu celu	
Maddeuant i'r Arlywydd			

Cwestiwn trafod

Pam y gorfodwyd yr Arlywydd Nixon i ymddiswyddo o ganlyniad i scandal Watergate a sut y gwnaeth yr Arlywydd Reagan oroesi'r scandal Irangate?

Nodiadau

Atebion posibl a phwyntiau trafod sy'n perthnasu i'r cwestiwn:

- Ystyriwyd Nixon yn bennaf gyfrifol am gelu digwyddiadau Watergate (tystiolaeth ar dapiau) tra 'gwadu mewn modd credadwy' fu hanes Reagan yn achos Irangate.
- Roedd Nixon wedi colli cefnogaeth tra arhosodd Reagan yn boblogaidd yn UDA.
- Roedd Watergate yn golygu bod yr arlywyddiaeth wedi mynd yn rhy bell o ran digwyddiadau cartref a thramor. Ar yr un pryd, gwelwyd Irangate, polisi tramor a oedd yn tramgwyddo, yn llai difrifol, er y gellir dadlau bod gweithredoedd llywodraeth Reagan yn waeth na rhai Nixon.
- Byddai uchelgyhuddo Nixon wedi llwyddo o ystyried ei ddiffyg cefnogaeth yn y Gyngres, tra bu i Reagan fwynhau cynnal ei gefnogaeth yn y sefydliad (yn gyndyn i ddechrau uchelgyhuddo mor fuan yn dilyn arlywyddiaeth Nixon).

Ar ddiwedd yr ymarfer, dylai'r athro nodi bod yr uchelgyhuddiad yn erbyn Bill Clinton wedi bod yn aflwyddiannus oherwydd ystyriaethau gwleidyddol yn sgil y ffaith bod tystiolaeth ar gael o droseddau a chamymddwyn ar raddfa Watergate/Irangate.

Ymarfer 7 – Yr Adran Weithredol Unedol

Arweiniad

Dylid cyflwyno'r topig hwn gydag amlinelliad byr o ddymchwel yr 'arlywyddiaeth imperialaidd' yn dilyn Fietnam ac Watergate. Arweiniodd hyn at gyfnod pan fu i'r Gyngres drio ailafael yn ei awdurdod cyfansoddiadol o wirio a chydbwyso pŵer gweithredol. Fodd bynnag, canlyniad yr ymosodiad terfysgol 9/11 ar UDA oedd i lywodraeth George W. Bush ehangu'r pŵer gweithredol mewn modd ymosodol a hynny'n seiliedig ar ei ddehongliad o 'Adran weithredol Unedol'. Dylid gofyn i'r myfyrwyr ystyried y dehongliad hwn o rym arlywyddol eang a weithredwyd gan lywodraeth Bush trwy'r gweithgaredd canlynol.

Gweithgaredd

Gweler taflen waith 7

Cyflwynir y myfyrwyr at y detholiad yma ar yr 'Adran Weithredol Unedol' ac yna gofynnir iddynt ateb y cwestiynau (gydag atebion wedi eu hawgrymu) sy'n dilyn:

Roedd arlwyddiaeth ôl 9/11 George Bush yn un ymwthgar a oedd yn arddangos grym a hefyd, mewn llawer o ffyrdd yn unochrog. Roedd cyfleoedd i roi grym ar waith yn dilyn ymosodiadau 11 Medi 2001 a digwyddodd y rhain, fwy neu lai, heb eu herio.

Canlyniad hyn oedd datblygu'r hyn a alwyd yn "Adran Weithredol Unedol". … Yn dilyn 9/11 roedd gwrthblaid Ddemocratig yn y Gyngres bron wedi tawelu, roedd y cyhoedd yn cefnogi'r arlywydd, ac unwaith yr ymosododd UDA yn filwrol ar Afghanistan, roedd poblogrwydd yr arlywydd yn yr entrychion. …

Cyhoeddodd yr arlywydd ryfel ryngwladol yn erbyn terfysgaeth; pasiwyd y ddeddf USA PATRIOT, sefydlwyd Adran Diogelu'r Famwlad, mabwysiadwyd yr egwyddor o "daro'n gyntaf" neu ryfela ataliol/ragymosodiadol, bu rhyfel yn erbyn llywodraeth y Taliban yn Afghanistan, aethpwyd i'r afael â rhwydwaith terfysgol al-Qaida a lansiwyd rhyfel yn erbyn Saddam Hussein yn Irac. …

Arlywyddiaeth UDA – Grym Arlywyddol

Wrth i'r rhyfel yn Irac chwerwi, wrth i enghreifftiau o arteithio carcharorion gan UDA ddod i'r fei, wrth i femoranda yn amddiffyn arteithio ac awdurdod anghyfreithlon i'r arlywydd ddod i sylw'r wasg, wrth i newyddion am y symud anarferol o garcharorion ("extraordinary renditions") ymddangos ar y cyfryngau, wrth i fanylion am garchar Bae Guantanamo ddod i'r amlwg, wrth i gynlluniau'r arlywydd i sefydlu tribiwnlysoedd militaraidd a gwarafun yr hawliau hynny sy'n rhan o Gonfensiwm Geneva ddod i'r wyneb, gorfodwyd yr arlywyddiaeth i fod yn fwy amddiffynnol. …

Roedd beirniaid yn daer bod gweithrediadau'r arlywydd yn bygwth rhannu pwerau, gwiriad a chydbwysedd a hyd yn oed y gyfraith. Nid Bush oedd yr arlywydd cyntaf i weithredu y tu hwnt i'r gyfraith, ond roedd ei ddadl na ddylai'r arlywydd fod yn gaeth i ofynion cyfreithiol mewn cyfnod o ryfel yn drywydd newydd ac yn fygythiad sylweddol i'r Cyfansoddiad a'r gwahanu o bwerau.

Michael A. Genovese, 'Foundations of the Unitary Executive of George W. Bush' yn Christopher S. Kelley & Ryan J. Barilleaux eds, *The Unitary Executive and the Modern Presidency*, (Texas A&M University Press, 2010)

Cwestiwn 1:
Pam roedd George W. Bush yn gallu rhoi pŵer unochrog ar waith yn dilyn ymosodiadau 9/11?

Cwestiwn 2:
Sut ddefnyddiodd George W. Bush y pŵer hwn?

Cwestiwn 3:
Beth a achosodd i farn pobl droi yn erbyn gweithrediadau Bush?

Cwestiwn 4:
Beth oedd y prif feirniadaethau am y ffaith bod Bush yn defnyddio pŵer arlywyddol drwy fabwysiadu'r theori o "Weithredu Unedol"?

Cwestiwn 5:
Oes yna unrhyw wahaniaeth rhwng "Arlywyddiaeth Imperialaidd" a "Gweithredu Unedol"?

Nodiadau

Atebion a argymhellir:

Cwestiwn 1:
Prin iawn oedd gwrthwynebiad Cyngresol i'w weithrediadau yn datblygu 'Adran Weithredol Unedol': roedd y bobl yn ei gefnogi ac, ar y dechrau, cynyddodd ei weithrediadau milwrol yn Afghanistan ei boblogrwydd.

Cwestiwn 2:
Bu iddo ddatgan 'rhyfel yn erbyn terfysgaeth', pasio'r *Patriot Act*, sefydlu Adran Diogelwch y Famwlad a mabwysiadu'r athrawiaeth o ryfel ragataliol yn Afghanistan, yn erbyn al-Qaida ac yn Irac.

Cwestiwn 3:
Gwrthwynebiad i'r rhyfel yn Irac, datgeliadau bod ei lywodraeth wedi cymeradwyo'r arfer o arteithio a'r 'cyfleu anarferol' o garcharorion, y cam-drin o garcharorion ym Mae Guantanamo, cynigion i gynnal tribiwnlysoedd milwrol a'r gwarafun o hawliau a ddiogelir o dan Gonfensiwn Genefa.

Cwestiwn 4:
Bu iddo fygwth gwahanu pwerau, gwiriadau a chydbwysedd a rheolaeth y gyfraith: gwelwyd dadl yr arlywydd bod modd i'r Adran Weithredol anwybyddu rheolaeth y gyfraith yn ystod cyfnod o ryfel yn un anghyfansoddiadol.

Cwestiwn 5:
O ran eu beirniaid, ar sawl cyfrif, nid oes gwahaniaeth rhyngddyn nhw. Mae'r ddau yn ymwneud ag arlywydd yn camddefnyddio pŵer ac yn ymddwyn yn anghyfansoddiadol. Mae'r ddau wedi arwain at 'ryfeloedd arlywyddol' a ddaeth i ben yn aflwyddiannus. Fodd bynnag, gellir dadlau bod y theori o Adran Weithredol Unedol' yn ymdrech i ddangos bod sail gyfansoddiadol i'r arlywydd ddefnyddio'i bŵer yn y ffordd yma tra bod 'Arlywyddiaeth Imperialaidd' yn syml, yn enghraifft o Adran Weithredol yn mynd yn rhy bell. Felly, mae'r 'Adran Weithredol Unedol' yn fodd i ddilysu'r un defnydd o rym arlywyddol a gaiff ei gamddefnyddio gan Arlywyddiaeth Imperialaidd.

Ymarfer 8 – Dal yr Arlywydd i gyfrif

Arweiniad

Dylai myfyrwyr ddarllen y datganiadau canlynol a thrafod pa un ydy'r mwyaf effeithiol wrth ddal yr Arlywydd i gyfrif:

1. Y Gyngres
2. Y Goruchaf Lys
3. Barn Gyhoeddus a'r Cyfryngau

Yn dilyn y drafodaeth, dylai'r athrawon bwysleisio bod y Gyngres, Y Llys, y farn gyhoeddus a'r cyfryngau'n rhyngweithio i ddal yr Arlywydd i gyfrif mewn gwirionedd. Mae tymor penodedig a'r angen am ailethol hefyd yn cyfyngu ar y potensial i gamddefnyddio pŵer arlywyddol.

Gweithgaredd

Gweler taflen waith 8

Cloriannu Datganiadau a Thrafodaeth

Mae'r myfyrwyr yn trafod y datganiadau canlynol ac yn trafod pa un ydy'r mwyaf effeithiol i ddwyn yr arlywydd i gyfrif: 1) Y Gyngres, 2) Y Goruchaf Lys neu 3) Barn y cyhoedd a'r cyfryngau.

Gall **Y Gyngres** ddefnyddio ei bwerau cyfansoddiadol i wrthod rhaglen ddeddfwriaethol yr arlywydd neu ymwrthod â gwharddiadau arlywyddol sy'n ymwneud â deddfwriaeth y mae wedi'i basio. Gall gyfyngu ar yr Adran Weithredol drwy ei bŵer ariannol. Mae gweithrediadau'r arlywydd fel Pencadfridog yn atebol trwy'r ddeddf *War Powers*. Mae gan y Senedd bŵer i atal enwebiadau arlywyddol ac i wrthod cytundebau. Mae gan y Gyngres bwerau ymchwilio eang i ddwyn yr Adran Weithredol i gyfrif, ac, mewn achosion eithafol, yn gallu uchelgyhuddo'r arlywydd am "droseddau uwch a chamymddwyn".

Gall **y Goruchaf Lys** ddatgan bod gweithrediadau arlywyddol yn anghyfansoddiadol. Arweiniodd dyfarniad y Llys yn yr achos *United States v. Richard Nixon* (1974), at orfodi

Nixon i ryddhau tapiau Watergate a'i ymddiswyddiad cyn iddo gael ei uchelgyhuddo. Yn achos *Rasul v.Bush* (2004), dyfarnodd y Llys bod hawl gan y rhai a garcharwyd ym Mae Guantanamo i herio'u carchariad yn y llysoedd federal ac yn *Hamdan v. Rumsfeld* (2006), dyfarnwyd y comisiynau milwrol a ffurfiwyd i ddwyn carcharorion Guantanamo o flaen eu gwell yn anghyfansoddiadol.

Barn y bobl a'r cyfryngau: Mae barn ffafriol y bobl yn hanfodol wrth gynnal pŵer a hygrededd arlywyddol. Gwelir tystiolaeth o hyn pan mae barn y bobl wedi troi yn erbyn "rhyfeloedd arlywyddol". Gadawodd Truman, Johnson, Nixon a George W. Bush yr arlywyddiaeth gyda'u henw da fel gwleidyddion wedi'i niwedio yn sgil rhyfeloedd Corea, Fietnam, Afghanistan ac Irac. I'r gwrthwyneb, goroesodd Arlywyddion Reagan a Clinton scandalau tra roedden nhw yn y swydd , yn rhannol oherwydd eu poblogrwydd. Mae gan y wasg ddylanwad ar farn y bobl: mae argaeledd ffynonellau cyfryngol di-ri a darllediadau newyddion pob awr o'r dydd yn golygu ei bod yn anodd i arlywyddion reoli eu delwedd.

Gweithgareddau ymestyn a awgrymir ar gyfer yr adnodd hwn

Dylai myfyrwyr:

1. ymchwilio i'r defnydd o orchmynion gweithredol mewn mwy o ddyfnder, e.e. yn arbennig mewn perthynas â pholisïau'r Arlywydd Trump ynglŷn â mewnfudwyr.
2. edrych yn fanylach ar allu'r Arlywydd i ddylanwadu ar y dehongliad o gyfreithiau trwy'r defnydd o arwyddo datganiadau.
3. ymchwilio i'r dadleuon a gynigir gan James Madison yn y *Pacificus - Helvidous Debates* (1793-94) – ar gael ar-lein – ynghylch pam y dylai'r corff deddfwriaethol yn hytrach na changen weithredol y llywodraeth gadw'r pŵer i gyhoeddi rhyfel.
4. drafod pa un ag ydy gwiriadau cyfansoddiadol a chydbwyso yn effeithiol wrth rwystro camddefnydd posibl o rym gweithredol.
5. ddiweddaru'r deunydd a gyflwynwyd yn y sesiwn yng nghyd-destun defnydd llywodraeth Trump o rym arlywyddol.